Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cwricwlwm i Gymru

# COD DATGANIADAU O'R HYN SY'N BWYSIG

Memorandwm Esboniadol
ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**Chwefror 2023**

## Memorandwm Esboniadol ar God Datganiadau o'r Hyn sy’n Bwysig y Cwricwlwm i Gymru

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y Cod Datganiadau o’r Hyn sy'n Bwysig. Rwy'n fodlon bod y buddiannau'n cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

20 Chwefror 2023

# RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Cod Datganiadau o’r Hyn sy'n Bwysig yn nodi’r cysyniadau allweddol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad (‘Maes’) – y Datganiadau o’r Hyn sy’n Bwysig. Dyma’r materion y mae’n rhaid eu haddysgu fel rhan o’r Cwricwlwm i Gymru.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r Cod hwn yn dilyn y weithdrefn negyddol ddrafft. Yn amodol ar y weithdrefn hon gan y Senedd, daw'r Cod i rym o 28 Ebrill 2023. Efallai y bydd y Pwyllgor yn awyddus i nodi'r canlynol o ran diweddaru canllawiau i ysgolion a lleoliadau.

2.2 Mae Canllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ar 28 Ionawr 2020 yn cynnwys y 27 o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y chwe Maes. Cadarnhawyd y rhain gan y fersiwn flaenorol o'r Cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2021.

2.3 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n diweddaru canllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn unol â'r Cod diwygiedig hwn er mwyn rhoi mwy o amser i ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cyngor hwnnw i lywio eu gwaith o ddylunio a chynllunio’r cwricwlwm drwy gydol blwyddyn academaidd 2022/23. Mae'r diweddariadau i'r canllawiau wrthi'n cael eu drafftio, a byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol hyd nes i’r Cod a gadarnhawyd gael ei gyhoeddi.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Adran 6 o Ddeddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (“y Ddeddf”) yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod sy'n nodi cysyniadau allweddol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad – Cod Datganiadau o’r Hyn sy'n Bwysig. Mae'n nodi:

- nad yw cwricwlwm yn cwmpasu maes dysgu a phrofiad (Maes) oni fydd yn cwmpasu'r cysyniadau hynny a nodir yn y Cod Datganiadau o’r Hyn sy'n Bwysig (Adran 6(2) o'r Ddeddf)
- nad yw addysg a dysgu yn cwmpasu Maes oni fydd yn cwmpasu'r cysyniadau hynny a nodir yn y Cod Datganiadau o’r Hyn sy'n Bwysig (Adran 6(2) o'r Ddeddf)
- bod yn rhaid i Weinidogion Cymru adolygu’r Cod Datganiadau o’r Hyn sy'n Bwysig yn barhaus, ac y gallant ei ddiwygio (Adran 6(4) o'r Ddeddf).

3.2 Mae adran 76 o'r Ddeddf yn nodi, mewn perthynas â'r Cod Datganiadau o’r Hyn sy'n Bwysig, cyn cyhoeddi neu ddiwygio Cod, bod yn rhaid i Weinidogion Cymru:

- ymgynghori â'r unigolion sy'n briodol (os o gwbl) yn eu tyb hwy, a
- chyflwyno drafft o'r Cod arfaethedig (neu, yn achos diwygiadau, o'r Cod diwygiedig arfaethedig) gerbron Senedd Cymru.

3.3 Os bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo Cod drafft cyn diwedd y cyfnod o 40 diwrnod, ni ddylai Gweinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod hwnnw. Os na wneir unrhyw benderfyniad cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod ar ffurf y drafft a osodwyd.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae diben ac effaith fwriadedig y Cod yn cysylltu'n uniongyrchol â'r rhai a nodir yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf.

4.2 Yn gryno, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig o ran dysgu a nodir yn y Cod yn ffurfio rhan o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru fel ffactorau allweddol sy'n trefnu ac yn ysgogi’r broses o ddatblygu'r cwricwlwm. Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn rhoi cyfle i bob ysgol a lleoliad ddylunio ei gwricwlwm ei hun o fewn dull gweithredu cenedlaethol sy'n sicrhau lefel o gysondeb.

4.3 Mae'r Cod yn ffurfio rhan o'r strwythur deddfwriaethol sydd ei angen i gefnogi cwricwlwm a arweinir gan ddibenion lle mae cynnydd dysgwyr wrth ei wraidd. Mae'r Ddeddf, ynghyd â deddfwriaeth ategol fel y Cod a'r canllawiau hyn yn darparu ar gyfer cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n addas ar gyfer y 21ain Ganrif, sy'n diffinio'r ‘syniadau mawr’ y dylai dysgwyr eu deall ac ymgysylltu â nhw i'w paratoi ar gyfer bywyd. Mae'n rhoi cyfle o fewn fframwaith cenedlaethol i ysgolion a lleoliadau lunio cwricwlwm sy'n cysylltu mewn modd ystyrlon â'r gymuned leol a phrofiadau dysgwyr.

4.4 Mae'r prif egwyddorion ar gyfer datblygu'r Ddeddf i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys:

- helpu pob dysgwr i ymgorffori'r pedwar diben;
- rhoi hawl i bob dysgwr, gan gynnwys y rheini sydd ag anawsterau dysgu difrifol, dwys neu luosog, gael addysg eang a chytbwys o ansawdd uchel drwy gydol ei gyfnod o addysg statudol;
- hyrwyddo cynnydd dysgwyr; ac
- annog addysg a dysgu sy'n ysgogi ac yn ddifyr, sy'n cefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng agweddau gwahanol ar yr hyn maent yn ei ddysgu.

4.5 Mae’r Cwricwlwm i Gymru bellach wrth wraidd ymdrechion athrawon, ysgolion ac ymdrechion cenedlaethol sy'n ceisio gwella safonau i bawb, mynd i'r afael â'r bwlch o ran cyrhaeddiad, a sicrhau system addysg sy'n ennyn balchder a hyder y cyhoedd ledled Cymru. Effaith fwriadedig y Cod

arfaethedig diwygiedig yw diweddaru rhan o'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r amcanion hyn.

### Diweddariadau i'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

4.6 Mae'r adran hon yn esbonio newidiadau i'r datganiadau lle maent yn wahanol i'r rheini a gyhoeddwyd fel rhan o ganllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020 ac a gyhoeddwyd fel rhan o'r Datganiadau gwreiddiol o'r Hyn sy'n Bwysig ar 15 Tachwedd 2021.

4.7 Mae'r Cod wedi'i ddiweddaru ychydig ym mharagraff 2.3.4 i gynnwys y cymal sydd wedi'i uwcholeuo isod yn un o ddatganiadau'r Dyniaethau o'r hyn sy'n bwysig.

> **Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl**.
> Gall gwerthfawrogi hunaniaeth, treftadaeth a chynefin, gan gynnwys hanes Cymru a'r byd, ddylanwadu'n emosiynol ac yn ysbrydol ar ddysgwyr, a bod o gymorth i greu ymdeimlad o hunan ac o berthyn.

## 5. Ymgynghori

5.1 Mae Adran 76(2)(a)) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r unigolion sy'n briodol (os o gwbl) yn eu barn nhw cyn cyhoeddi neu ddiwygio'r Codau hyn.

5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol 5 wythnos o hyd rhwng 30 Tachwedd 2022 a 4 Ionawr 2023 ar y diwygiadau a awgrymwyd i'r Cod a'r canllawiau cysylltiedig. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo i gynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol yn cynnwys ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Comisiynydd Plant Cymru, grwpiau plant, Estyn, undebau athrawon a rhanddeiliaid ehangach.

5.3 Cafwyd 53 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd nifer o'r ymatebion hyn yn gyflwyniadau manwl. Mae dogfennau'r ymgynghoriad a'r adroddiad am y dadansoddiad o'r ymatebion (sy'n cynnwys copïau o'r ymatebion) ar gael ar-lein yn: Cwricwlwm i Gymru – Rhoi eglurder ynghylch y maes Dyniaethau mewn perthynas â hanes Cymru a'r byd | LLYW.CYMRU

5.4 I grynhoi, cafwyd cefnogaeth gyffredinol o blaid addysgu am hanesion Cymru a'i bwyslais yn y Cwricwlwm i Gymru, er i rai pryderon gael eu codi ynghylch yr angen am gydbwysedd ar draws ehangder Maes y Dyniaethau. Wedi dweud hynny, teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr y byddai'r newidiadau a gynigir ar gyfer datganiad y Dyniaethau o'r hyn sy'n bwysig yn rhoi mwy o bwyslais ac eglurder ynghylch addysgu hanesion Cymru. Cafwyd adborth pellach mewn perthynas â'r canlynol:

- mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch geiriad penodol newidiadau arfaethedig i ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru

- roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y newidiadau arfaethedig yn ddiangen; yn bennaf oherwydd naill ai eglurder y geiriad gwreiddiol, neu bryderon ynghylch newidiadau pellach (a'r hyn a ystyriwyd yn newidiadau cymharol fach) tra bo ysgolion yn rhoi trefniadau'r cwricwlwm newydd ar waith
- roedd cefnogaeth gyffredinol o blaid datblygu adnodd llinell amser newydd; cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar ei gynnwys a'i ddatblygiad, yn ogystal â risgiau ar sut y gellid ei ystyried yn gyfarwyddol gan ysgolion a lleoliadau
- roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn ystyried y byddai dealltwriaeth gliriach a mwy cynhwysfawr o hanesion Cymru gan ddysgwyr yn debygol o gael rhywfaint o fudd ar y Gymraeg. Roedd eraill naill ai'n aneglur ar yr effeithiau neu roeddent o'r farn y byddai'n dod i'r amlwg wrth i fwy o ddysgwyr brofi'r Cwricwlwm i Gymru
- roedd hefyd thema gyffredinol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch cefnogaeth bellach i ddatblygu'r broses o ddysgu ac addysgu am hanesion Cymru mewn ysgolion a lleoliadau; roedd y farn yn amrywio mewn perthynas â natur y gefnogaeth honno, ond yn gyffredinol roedd y gefnogaeth yn cynnwys adnoddau a deunyddiau ategol, gan gynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol.

5.5 Ystyriwyd yr adborth a gafwyd, ac o ganlyniad mae'r newidiadau arfaethedig i ddatganiad y Dyniaethau o'r hyn sy'n bwysig yn y Cod diwygiedig drafft yn aros fel yr argymhellir, ac fel y nodir ym mharagraff 4.7 uchod.

5.6 Fodd bynnag, mae'r adborth hefyd yn arwain at ddiwygiadau pellach i ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru nad ydynt yn dod o dan y Cod mewn perthynas â'r canlynol:

- ychwanegu 'amgylchedd naturiol' at y cyflwyniad i adran y Dyniaethau yn y canllawiau
- ychwanegu hanesion Cymru' at y cyflwyniad i'r canllawiau, yn ogystal â diffiniad o 'genedl' fel un sy'n golygu Cymru, er mwyn sicrhau eglurder
- ychwanegu cyfeiriad penodol at ddatblygiad y Gymraeg yng nghyd-destun hanesion Cymru yn adran 'cynllunio eich cwricwlwm' y canllawiau – a fydd yn cynnig cysylltiadau cryfach â Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r cwricwlwm yn hyn o beth.

5.7 Fel y nodwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei Ddatganiad Ysgrifenedig ar 15 Tachwedd 2022, mae'r Cytundeb Cydweithio rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd bod hanesion Cymru, yn ei holl amrywiaeth a'i gymhlethdod, yn orfodol yn y Cwricwlwm i Gymru. Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae'r Gweinidog wedi adolygu Cod y datganiadau gorfodol o'r hyn sy'n bwysig, a'r canllawiau ategol eraill, i gryfhau'r ymrwymiad cyffredin hwn ymhellach. Yn unol â'r Cytundeb Cydweithio ac ar ôl ystyried y ffynhonnell gyfoethog o gyngor ac argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd gwaith i ddatblygu llinell amser gynhwysfawr ar gyfer hanesion Cymru bellach yn mynd rhagddo yn ystod 2023.

# Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## 6. Trosolwg o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae'r Cod yn ffurfio rhan annatod o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru sydd, ynghyd â'r dyletswyddau a'r gofynion eraill a roddwyd ar ysgolion a lleoliadau o dan y Ddeddf, yn rhoi eglurder a disgwyliadau cenedlaethol ar y modd y mae'n rhaid datblygu cwricwlwm / y modd y gellir gwneud hynny.

6.2 Fel y nodir yn adran Cynllunio eich Cwricwlwm o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru, mae angen i'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm fod yn un gyfannol. Mae angen iddi adlewyrchu amrywiaeth o ystyriaethau, sy'n cynnwys y wybodaeth yn y Cod hwn, yn ogystal â dyletswyddau a gofynion gorfodol eraill o dan y Ddeddf, canllawiau cwricwlwm ehangach, ynghyd ag amgylchiadau lleol. O ganlyniad, nid ystyrir bod dadansoddiadau a chostau ar wahân ac unigryw mewn perthynas ag effeithiau wedi'u dosrannu o elfennau penodol o'r Fframwaith yn ymarferol; neu os ceisir gwneud hynny, y byddai'n arwain at ganlyniadau amheus o ystyried yr amrywiaeth eang o newidynnau a chafeatau dan sylw. Yn gryno, ni fyddai'n realistig ceisio dadansoddi, asesu ac adrodd ar effeithiau'r gofynion penodol a nodir yn y Cod hwn o'r broses ehangach o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion a lleoliadau.

6.3 Fodd bynnag, lluniwyd gwybodaeth fanwl ar y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ar draws y system ac ar gyfer ysgolion a lleoliadau. Nodir hyn yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i gyhoeddi Adroddiadau Blynyddol am y cynnydd a wneir wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru – cafodd y cyntaf o'r rhain ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022.

### Asesiadau Effaith

6.4 Mae'r broses o asesu effaith mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru yn mynd rhagddi. O ganlyniad, mae amrywiaeth o asesiadau effaith wedi'u cyhoeddi eisoes sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â'r gofynion ar ysgolion a lleoliadau a nodir yn y Cod hwn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddwyd gwybodaeth fanwl ar y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ar draws y system ac ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf.

- Mae'r asesiad effaith integredig ar ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru - sy'n cynnwys y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac egwyddorion cynnydd, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020.

- Cyhoeddwyd asesiad effaith integredig o'r modd y byddai cynigion ar gyfer deddfwriaeth Cwricwlwm ac Asesu yn effeithio ar addysgu a dysgu ym mis Gorffennaf 2020.

- Sicrhau mynediad i’r cwricwlwm llawn: asesiad o’r effaith ar hawliau plant a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020.

- Canllawiau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022: asesiad o’r effaith ar hawliau plant a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020.

- Cyhoeddwyd asesiad effaith integredig ar gynigion ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym mis Ebrill 2020.

- Y ffurflen nodi'r effaith ar y system gyfiawnder a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018.

6.5 Yn ogystal â'r asesiadau uchod, wrth ddatblygu'r Cod diwygiedig hwn ystyriwyd a allai effeithiau penodol godi o ychwanegu'r cymal yn y Cod hwn. Edrychwyd ar hynny eto hefyd yn sgil yr ymatebion i’r ymgynghoriad. Gan nad yw'r cymal ychwanegol arfaethedig yn cynrychioli newid ym mholisi neu fwriad y llywodraeth, ond yn hytrach mae'n ceisio egluro’r bwriad sy’n bodoli, penderfynwyd nad oedd angen asesiad effaith integredig llawn ar ben y rhai a wnaed eisoes. Mae hyn yn parhau i fod yn unol â phrotocol asesiadau effaith, er mwyn cefnogi datblygiad polisi.

6.6 Serch hynny, mae'n werth nodi un agwedd ar y newid arfaethedig hwn yng ngoleuni un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn perthynas â diwylliant:

> *‘Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg, ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden’*

Fel y nodwyd gan nifer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, mae gan yr eglurhad ynghylch dysgu ac addysgu am hanesion Cymru botensial i gefnogi dysgwyr yn y maes uchod. Er nad oes modd mesur hynny ar hyn o bryd, gan ei fod yn ddibynnol ar sawl ffactor, gan gynnwys ansawdd y dysgu a’r addysgu yn y dyfodol ar lefel leol, mae rhywfaint o botensial o hyd i’r diweddariad hwn gefnogi dealltwriaeth ehangach o dreftadaeth a'r Gymraeg. Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol yn hyn o beth o ganlyniad i’r newid arfaethedig.

6.7 Mae’r Asesiad Effaith Integredig llawn y mae’r ddolen gyswllt iddo i’w gweld uchod, eisoes yn nodi’r canlynol.

> ‘*Mae canllawiau ar gyfer MDaPh y Dyniaethau yn rhoi cyfle i bob dysgwr ddysgu am eu treftadaeth a'u hymdeimlad o le drwy astudio eu cynefin a Chymru. Mae hyn yn hybu dealltwriaeth o'r modd y mae pobl Cymru, ei chymunedau, diwylliant, tirwedd, adnoddau a diwydiannau yn cydberthyn â gweddill y byd.*’

Mae canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg sy'n rhan o'r Asesiad Effaith Integredig yn parhau i fod yr un fath mewn perthynas ag effaith rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ym mhob ysgol a lleoliad.

## 7. Opsiynau

7.1 Ystyriwyd opsiynau ynghylch statws y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, fel y nodir yn y Cod hwn, gan Weinidogion (ac fe'u trafodwyd gan Aelodau o'r Senedd) yn ystod hynt y Ddeddf rhwng 2020 a 2021. O ganlyniad, cwmpesir hyn yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf. Yn gryno, roedd opsiynau o ran y datganiadau yn ymwneud â'u statws yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Roedd opsiynau sy'n deillio o'r bwriad i gynnwys y cymal ychwanegol mewn un o ddatganiadau'r Dyniaethau o'r hyn sy'n bwysig, fel y nodir yn y Cod drafft arfaethedig, yn canolbwyntio ar a ddylid cynnwys y diweddariad nawr ai peidio. Y dewis arall fyddai aros hyd nes y cynhelir adolygiad mwy sylweddol o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac o drefniadau'r Cwricwlwm i Gymru (yn unol â gofynion y Ddeddf) wrth i fwy o wybodaeth o'r rhaglen werthuso a monitro ddod i law am brofiadau ymarferwyr o weithio yn ôl y datganiadau dros y blynyddoedd i ddod. Ac eithrio'r ymrwymiadau a wnaed yn y Cytundeb Cydweithio, ystyriwyd y byddai peidio â darparu'r eglurhad hwn yn golygu llai o help i'r proffesiwn o ran cefnogi eu gwaith wrth gynllunio a datblygu'r cwricwlwm yn unol â bwriadau sefydlog a pholisi'r Llywodraeth a nodwyd ynghylch addysgu am hanesion Cymru.

7.2 Nododd adborth a gafwyd ar ymgynghoriad eang 2019 ar ganllawiau drafft y Cwricwlwm i Gymru (gweler: Canllawiau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022: adborth | LLYW.CYMRU) rywfaint o bryder ynghylch gwahaniaeth posibl rhwng dulliau gweithredu ar draws ysgolion a lleoliadau yn deillio o ddull gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, ac egwyddor sybsidiaredd. Gwnaed y penderfyniad i osod gofynion gorfodol ar ysgolion a lleoliadau mewn perthynas â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, gan nodi manylion y gofynion hynny yn y Cod hwn, yn ystod hynt y Ddeddf wrth fynd i'r afael â'r pryder hwn. Bwriedir yn rhannol, felly, i'r diweddariad a gynigir yn y Cod drafft – yn unol ag amcanion y llywodraeth ar gyfer y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig – ddarparu'r eglurder hwnnw i bob ysgol a lleoliad ledled Cymru mewn perthynas â gofynion cenedlaethol o dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

7.3 O ganlyniad i'r uchod, mae Adran 6 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio'r Cod hwn. Ymgynghorodd y Gweinidog ar eu cynnwys: yn 2019 o ran datganiadau ac egwyddorion drafft cynharach, yn 2021 mewn perthynas â'r Cod drafft cychwynnol, ac ar ddiwedd 2022 mewn perthynas â'r Cod drafft diwygiedig hwn. Mae'r fersiwn o'r drafft wedi'i diwygio o ystyried yr adborth a gafwyd, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol uchod. Ystyriwyd bod y gofyniad a nodir yn y Ddeddf i Weinidogion adolygu cynnwys y Codau yn rheolaidd a'i ddiweddaru os bydd angen, yn ddefnyddiol wrth gydnabod y ffaith y bydd profiadau cymdeithas, dysgwyr a'r proffesiwn addysg yn datblygu dros amser.

## 8. Costau a manteision

8.1 Fel y nodir yn adran 6 uchod, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad costau a manteision yn benodol ar yr elfennau diwygiedig o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a nodir yn y Cod hwn ar y sail yr ystyrir nad yw dadansoddiad o'r fath yn realistig. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gostau ychwanegol i'r system addysg yn codi o'r Cod hwn. A'r rheswm am hynny yw ei bod eisoes yn ofynnol i ysgolion a lleoliadau gadw golwg ar eu trefniadau ynghylch y cwricwlwm a'u diweddaru yn unol â hynny mewn ymateb i'w dadansoddiad eu hunain o'u heffaith, o'r anghenion sy'n dod i'r amlwg ac o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn cydnabod y gallai rhai ysgolion neu leoliadau benderfynu ymgymryd â gwaith cwricwlwm penodol mewn perthynas â hanesion Cymru, fodd bynnag gall unrhyw ysgol sydd heb ddatblygu cynlluniau clir o'r fath eto wneud hynny fel rhan o'u trefniadau parhaus i ddatblygu'r cwricwlwm. Mae'r gefnogaeth i ysgolion a lleoliadau fwrw ymlaen â'r broses hon yn parhau dros y blynyddoedd i ddod, fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y Cwricwlwm i Gymru.

8.2 Mae'r diweddariad i'r Cod yn sicrhau bod ysgolion a lleoliadau'n cael yr eglurhad sydd ei angen arnynt ynghylch cael trefnydd allweddol ar gyfer y cwricwlwm a fydd yn rhoi rhywfaint o gysondeb ac ehangder yn y cwricwlwm mewn perthynas â hanesion Cymru ar draws y continwwm dysgu 3 i 16 oed.

## 9. Asesiad o'r Gystadleuaeth

9.1 Prawf hidlo'r gystadleuaeth:

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 10%? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy nag 20%? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 50%? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau o gymharu ag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw'r sector wedi'i nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Nac ydy |

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

9.2 Ni fydd y darpariaethau yn y Cod yn effeithio ar fusnesau nac elusennau na'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy'n codi materion o ran cystadleuaeth. Ni chymhwyswyd prawf hidlo'r gystadleuaeth.

9.3 Ni ddisgwylir i'r darpariaethau yn y Cod gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd na chyflenwyr presennol. Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 6.3, disgwylir mai cyrff cyhoeddus, sydd eisoes yn talu'r costau hyn, fydd yn gorfod talu'r mwyafrif o'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth.

9.4 Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith negyddol ar fusnesau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru.

## 10. Adolygiad ar ôl gweithredu

10.1 Bydd y gwaith o weithredu'r Cod mewn ysgolion a lleoliadau yn mynd rhagddo hyd at flwyddyn academaidd 2026/27 wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno mewn ysgolion a lleoliadau. Mae adolygiad o'r broses o'u gweithredu yn rhan o'r adolygiad gweithredu ehangach a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 6.3 uchod.

10.2 Nid yw'r rhaglen ehangach o werthuso diwygiadau'r cwricwlwm (gweler: Cwricwlwm i Gymru: Cynllun gweithredu – Hwb (llyw.cymru)) wedi'i gynllunio fel asesiad ôl-weithredol unigol o effeithiau. Yn hytrach, mae'n broses ddysgu barhaus, gyda gwerthusiad o effeithiau yn rhan bwysig ohoni. Cynhelir gwerthusiad ffurfiannol yn ystod blynyddoedd cynnar y broses o'i gweithredu er mwyn deall llwyddiannau a heriau cynnar, a ph'un a yw diwygiadau i'r cwricwlwm yn cael y canlyniadau bwriadedig. Bydd hyn yn sicrhau y gellir gwneud newidiadau i bolisïau er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd. Bydd canfyddiadau cychwynnol o roi'r cwricwlwm ar waith yn cael eu cyhoeddi yn nhymor yr haf drwy Adroddiad Blynyddol y cwricwlwm. Bydd gwerthusiad o effaith yn ystyried canlyniadau diwygiadau wrth iddynt ddod yn weithredol ac ar ôl cyfnod digonol i adael i ganlyniadau tymor hwy ddod i'r amlwg. Fel rhan o'r broses hon, caiff gwaith ei flaenoriaethu drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm i gefnogi gwaith ysgolion a lleoliadau ar gynnydd mewn dysgu ac i feithrin dealltwriaeth ar draws y system ac adolygu'r egwyddorion cysylltiedig dros amser.

## Atodiad 1
## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Deddf** | At ddibenion y ddogfen hon, mae'n cyfeirio'n benodol at Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 |
| **Meysydd Dysgu a Phrofiad (I)** | Mae strwythur trefnu Cwricwlwm Cymru yn cynnwys chwe Maes, sy'n annog cysylltiadau cryf ac ystyrlon ar draws gwahanol ddisgyblaethau. Dyma'r meysydd a restrir yn y Ddeddf:<br>• Y Celfyddydau Mynegiannol<br>• Iechyd a Lles<br>• Y Dyniaethau<br>• Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>• Mathemateg a Rhifedd<br>• Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
| **Sgiliau trawsgwricwlaidd** | Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae'r rhain yn sgiliau gydol oes sy'n hanfodol ar gyfer dysgu ac am allu gweithredu'n llwyddiannus yn y byd modern. Maen nhw'n galluogi dysgwyr i fanteisio ar ehangder cwricwlwm ysgol a'r cyfoeth o gyfleoedd a gynigir ganddo, gan roi iddyn nhw y sgiliau gydol oes i gyflawni'r pedwar diben. |
| **Cwricwlwm** | Sefydlu'r holl brofiadau addysgu a dysgu a gynlluniwyd wrth gyflawni dibenion addysg y cytunwyd arnynt. |
| **Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)** | Addysg a ariennir gan yr awdurdod lleol a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion penodol disgyblion na allant, am ba reswm bynnag, fynychu ysgol brif ffrwd neu arbennig. |
| **Estyn** | Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Dyma'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru. |
| **Y pedwar diben** | Dyma'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Mae trefniadau'r cwricwlwm ac asesu yn cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu fel:<br>• **Dysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau<br>• **Cyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith<br>• **Unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas a<br>• **Dinasyddion egwyddorol a gwybodus** yng Nghymru a'r byd |

| | |
|---|---|
| | O fewn y prif ddibenion hyn, caiff amrywiaeth o nodweddion manylach eu nodi yn y canllawiau ar Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. |
| **Lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir** | Darpariaeth breifat, yn cynnwys cylchoedd chwarae a lleoliadau gwarchod plant, ar gyfer plant dan 5 oed. |
| **Cyrff llywodraethu** | Cânt eu sefydlu yn unol ag adran 19 o Ddeddf Addysg 2002 ac maent yn gyfrifol am lywodraethu a chynnal yr ysgolion. |
| **Dysgwr** | Plentyn neu berson ifanc rhwng 3 ac 16 oed. Mae hyn yn cynnwys 'disgybl'. |
| **Ysgolion a gynhelir** | Ysgolion y mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i'w cynnal. Maent yn cynnwys:<br>• Ysgolion gwirfoddol<br>• Ysgolion cymunedol ac ysgolion arbennig cymunedol<br>• Ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig sefydledig<br>• Unrhyw ysgol arbennig a gynhelir nad yw wedi'i sefydlu mewn ysbyty[1] |
| **Ysgolion arbennig a gynhelir** | Ysgolion sy'n diwallu anghenion addysgol arbennig a ariennir gan awdurdod lleol. |
| **Dysgu Proffesiynol** | Cyfleoedd i ddatblygu a gwella gwybodaeth ac ymarfer proffesiynol darparwyr addysg, er mwyn datblygu ansawdd dysgu ac addysgu a gwella ysgolion. |
| **Uned Cyfeirio Disgyblion** | Math o ysgol sy'n cael ei sefydlu a'i chynnal gan awdurdod lleol yn unol ag adran 19 o Ddeddf Addysg 1996[2] ar gyfer plant na allant fynd i ysgol brif ffrwd. Yn aml, caiff disgyblion eu cyfeirio os bydd angen mwy o ofal a chymorth arnynt na'r hyn y gall eu hysgol reolaidd ei chynnig. |
| **Is-ddeddfwriaeth** | Deddfwriaeth a wneir gan Weinidog, neu'n achlysurol gan gorff cyhoeddus, dan bwerau a roddwyd iddynt gan Ddeddfau Seneddol, Mesurau gan y Cynulliad a Deddfau'r Senedd er mwyn gweithredu a gweinyddu gofynion deddfwriaeth sylfaenol. |
| **Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig** | Is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf. Mae'r cod yn cynnwys y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r datganiadau hyn yn sicrhau lefel o gysondeb yn y gwaith o ddylunio'r cwricwlwm mewn lleoliadau ac ysgolion, gan fod yn rhaid i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r dysgu a fynegir ym mhob datganiad. |

[1] Mae awdurdod lleol hefyd yn cynnal Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau) ond cânt eu rhestru ar wahân. Ystyr "cynnal" yw ariannu'r ysgol honno yn gyfan gwbl neu'n sylweddol.

[2] Mae'r Bil yn gwneud adran 19 yn ddarpariaeth ar gyfer Lloegr yn unig ac yn mewnosod darpariaeth newydd i Gymru yn unig yn adran 19A o Ddeddf Addysg 1996.